# Is-grŵp Parodrwydd ar gyfer Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19
# Cylch Gorchwyl a Threfniadau Gweithredu

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** 21 Medi 2022 | **Fersiwn:** 1<br>Cymeradwywyd: Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru 29 Medi 2022 |
| **Dyddiad Adolygu:** Yn flynyddol | |

## 1. Cyflwyniad

Yn unol ag Adran B, 3 a 7 y Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo, bydd yr Ymddiriedolaeth yn enwebu Is-grŵp i'w adnabod fel **Is-grŵp Parodrwydd ar gyfer Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19**. Cymeradwyodd y Bwrdd greu'r Is-grŵp hwn yn ei gyfarfod ar 26 Mai 2022.

Mae'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu manwl a osodwyd gan y Bwrdd mewn perthynas â'r Is-grŵp hwn wedi'u nodi isod.

Mae'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu hyn i'w darllen ochr yn ochr â'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu safonol sy'n berthnasol i bob pwyllgor ac is-grŵp y Bwrdd.

## 2. Diben

Diben Is-grŵp Parodrwydd ar gyfer Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19 ("yr Is-grŵp") yw:

- **Cynghori** a **rhoi sicrwydd** i'r Bwrdd ynghylch a oes trefniadau ac adnoddau effeithiol ar waith i sicrhau'r ymateb sefydliadol priodol i Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19 y DU (yr Ymchwiliad);

- **Cymeradwyo**, ar ran y Bwrdd, a ddylai'r sefydliad wneud cais am Statws Cyfranogwr Craidd ar gyfer pob un o fodiwlau/is-fodiwlau Ymholiad i COVID-19 y DU;

- Ceisio **sicrwydd** bod prosesau priodol ar waith i gefnogi cyflwyniadau corfforaethol y sefydliad i'r Ymchwiliad, gan gynnwys y

Wedi ei Gymeradwyo

cyfarwyddiadau ar gyfer anerchiadau agoriadol a chloi gan y Cwnsler;

- Ceisio **sicrwydd** bod dysgu sefydliadol yn cael ei nodi ac y gweithredir arno lle bo'n briodol, o ran parodrwydd yr Ymchwiliad a'r ymateb i'r pandemig ei hun.

## 3. Pwerau Dirprwyedig

### Cylch gorchwyl

Rôl yr Is-grŵp yw rhoi **sicrwydd** annibynnol i'r Bwrdd bod systemau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer meysydd o fewn ei gylch gwaith, gan gynnwys sicrhau bod gwelliannau datblygu ac ansawdd priodol ar waith.

Wrth gyflawni'r gwaith hwn, bydd yr Is-grŵp yn defnyddio'n bennaf waith y Bwrdd Rhaglen Parodrwydd ar gyfer Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19 mewnol ac adroddiadau perthnasol yn ogystal ag unrhyw wybodaeth gan gynghorwyr cyfreithiol.

Rhagwelir y bydd cyfyngiad amser ar yr Is-grŵp yn unol â hyd oes Ymchwiliad Cyhoeddus y DU. Am y rheswm hwn, ni fydd rhaglen waith benodol yn cael ei datblygu ond bydd gwaith yr Is-grŵp yn dilyn yn fras y dull modiwlaidd a osodwyd gan yr Ymchwiliad wedi'i gefnogi gan y dull cyffredinol a ddefnyddir gan y sefydliad.

### Sicrwydd

Bydd yr Is-grŵp yn ceisio **sicrwydd** ynghylch:

- a oes trefniadau ac adnoddau effeithiol ar waith i sicrhau ymateb sefydliadol priodol i Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19 y DU (yr Ymchwiliad);
- bod y broses gymeradwyo briodol ar waith i gefnogi cyflwyniadau corfforaethol y sefydliad i'r Ymchwiliad, gan gynnwys y cyfarwyddiadau ar gyfer anerchiadau agoriadol a chloi gan y Cwnsler;
- bod dysgu sefydliadol yn cael ei nodi ac y gweithredir arno lle bo'n briodol, o ran parodrwydd Ymchwiliad Sefydliadau a'r ymateb i'r pandemig ei hun.

### Gwneud Sylw / Argymhelliad i'r Bwrdd

Nid oes disgwyl i'r Is-grŵp wneud argymhellion i'r Bwrdd fel mater o drefn, ond rhagwelir rhai argymhellion fel a ganlyn:

Wedi ei Gymeradwyo

- Unrhyw ymrwymiadau polisi tymor canolig i hir y gall fod angen i'r sefydliad eu rhoi ar waith; er enghraifft rhoi cyngor cyfreithiol i gyn-weithwyr;
- Unrhyw newidiadau i gylch gorchwyl yr Is-grŵp;
- Yr amser priodol i roi'r gorau i weithredu'r Is-grŵp;
- Unrhyw bryderon y mae'r Is-grŵp yn dymuno eu codi ynglŷn â rheoli/trin parodrwydd y Sefydliadau.

**Penderfyniadau Dirprwyedig**
Bydd yr Is-grŵp yn cefnogi'r Bwrdd drwy **adolygu** a **chymeradwyo** fel y bo'n briodol:

- Y penderfyniad i wneud cais am Statws Cyfranogwr Craidd ar gyfer pob modiwl/is-fodiwl.

## 4. Is-bwyllgorau/grwpiau

Yn yr achos annhebygol y bydd eu hangen, gall yr Is-grŵp sefydlu is-grwpiau eraill i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei rôl. Ar adeg datblygu'r ddogfen hon, nid oedd unrhyw is-bwyllgorau ar waith.

## 5. Mynediad

Gall yr Is-grŵp dderbyn cyngor cyfreithiol gan dîm cyfreithiol y sefydliad, a all gael ei dderbyn fel gwybodaeth â braint gyfreithiol.

## 6. Aelodaeth, Mynychwyr a Chworwm

### 6.1 Aelodau

Lleiafswm o dri aelod yn cynnwys:

Cadeirydd: Cadeirydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru (yn absenoldeb y Cadeirydd, bydd y Cadeirydd yn dynodi Cyfarwyddwr Anweithredol arall i Gadeirio'r cyfarfod).

Aelodau:
- Cadeirydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Is-Gadeirydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru (Cyfarwyddwr Anweithredol)
- Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol (Cyfarwyddwr Anweithredol)
- Prif Weithredwr
- Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid

Wedi ei Gymeradwyo

Gall yr Is-grŵp hefyd gyfethol aelodau allanol annibynnol ychwanegol o'r tu allan i'r sefydliad i ddarparu sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd os oes angen.

### 6.2 Mynychwyr

**Yn bresennol:**

Gellir gofyn i aelodau staff (neu eu dirprwyon) fynychu'r Is-grŵp i gyfrannu'n weithredol a rhoi sicrwydd.

Gwahoddir y tîm cyfreithiol sy'n cefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i fod yn bresennol pan fo angen.

Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Busnes y Bwrdd yn rhoi cymorth gweinyddol a llywodraethu i'r grŵp.

Ni fydd cynrychiolwyr Undebau Llafur yn cael eu gwahodd i ymuno â'r Is-grŵp o ystyried natur gyfyngedig cylch gorchwyl y grŵp. Bydd cynrychiolwyr Undebau Llafur yn derbyn yr adroddiadau gan yr Is-grŵp yn ystod sesiynau preifat y Bwrdd.

### 6.3 Cworwm

Rhaid i o leiaf **dri** aelod fod yn bresennol i sicrhau cworwm y Pwyllgor, a dylai un ohonynt fod yn Gadeirydd yr Is-grŵp (neu Gadeirydd y cyfarfod), a dylai dau o'r aelodau hyn fod yn Gyfarwyddwyr Anweithredol.

## 7. Amlder y Cyfarfodydd

Bydd yr Is-grŵp yn cyfarfod yn ôl yr angen yn dibynnu ar ofynion yr Ymchwiliad ar unrhyw adeg benodol a rôl y sefydliad wrth ymateb i fodiwlau'r Ymchwiliad a cheisiadau cyfreithiol. Rhagwelir y bydd yr Is-grŵp yn cyfarfod rhwng 4 a 6 gwaith y flwyddyn.

## 8. Perthnasoedd ac atebolrwydd gyda'r Bwrdd a'i Bwyllgorau/Grwpiau

Bydd yr Is-grŵp yn gweithredu fel un endid ac ni fydd yn dibynnu'n benodol ar waith Pwyllgorau eraill y Bwrdd. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd cysylltiad â chylch gorchwyl rhai o Bwyllgorau'r Bwrdd yn dibynnu ar unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19 y DU. Bydd unrhyw wersi o'r fath yn cael eu trafod gyda

Wedi ei Gymeradwyo

Phwyllgorau perthnasol neu swyddogaethau Gweithredol fel y bo'n briodol.

**9. Trefniadau Adrodd a Sicrwydd**

Bydd yr Is-grŵp yn darparu adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r Bwrdd ar ei waith i gefnogi cylch gorchwyl yr Is-grwpiau.

Mae Cadeirydd yr Is-grŵp yn adrodd i'r Bwrdd trwy adroddiad gan Gadeirydd yr Is-grŵp, lle mae unrhyw faterion arwyddocaol yn cael eu dwyn i sylw'r Bwrdd. Darperir yr adroddiad hwn i gyfarfodydd y Bwrdd a gynhelir yn breifat o ystyried natur gyfrinachol y materion y bydd y grŵp yn eu hystyried.

**10. Perthnasedd y Rheolau Sefydlog i Fusnes yr Is-grŵp**

Gan gydnabod ei statws fel Is-grŵp ac nid Pwyllgor Bwrdd llawn, ystyrir bod y gofynion ar gyfer cynnal busnes fel y nodir yn Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth yn berthnasol i weithrediad yr Is-grŵp, ac eithrio yn y meysydd a ganlyn:

- Cworwm (gweler paragraff 6.3);
- Ni fydd cyfarfodydd fel arfer yn cael eu cynnal yn gyhoeddus a byddant yn cael eu hadrodd i gyfarfodydd y Bwrdd a gynhelir yn breifat;
- Ni fydd agendâu, adroddiadau a chofnodion yn cael eu cyhoeddi (ond byddant ar gael i holl aelodau Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru);
- Y rhaglen waith flynyddol.

Wedi ei Gymeradwyo